OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1937

# Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2015

**Diwygiadau i Reoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009**

**4.** Yn Atodlen 1 (Difrod i rywogaethau a warchodir, cynefinoedd naturiol a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig), yn lle paragraff 5 rhodder—

"**Awdurdodiad pendant**

**5.** Nid yw difrod i rywogaethau a warchodir neu gynefinoedd naturiol, a difrod i safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, yn cynnwys difrod a achoswyd gan weithred a awdurdodwyd yn bendant gan yr awdurdodau perthnasol yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**) neu Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010(**2**)."

(**1**) 1981 p. 69.
(**2**) O.S. 2010/490, diwygiwyd gan O.S. 2011/603, 2011/625, 2012/630, 2012/635, 2012/637, 2012/1927, 2013/755 (Cy. 90) ac O.S. 2015/377.